


# Astudiaeth ymchwiliadol o ddarparu addysg uwch yng Nghymru

Comisiynwyd gan: Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Tîm ymchwil: Anna Verhamme, John Britton, Huw Landeg Morris a Jan Watkins
3 Ebrill 2024

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw

## Crynodeb Gweithredol

Mae Cymru ar adeg dyngedfennol yn hanes ei haddysg ôl-uwchradd. Mae sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (**CADY**) yn gyfle i sicrhau bod dysgwyr o bob oed yn cael mynediad at yr ystod lawn o gyfleoedd addysg, a thrwy hynny leihau anghydraddoldebau, ehangu cyfleoedd a chodi safonau yng Nghymru.

Yn barod ar gyfer y gwaith hwn fe roddodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (**CCAUC**) gomisiwn i Anna Verhamme Consulting gynnal astudiaeth ymchwiliadol o ddarparu addysg uwch yng Nghymru. Mae ein hastudiaeth yn ymdrin â phum cwestiwn: i ba raddau y ceir amrywiaeth mewn modelau darparu yng Nghymru; beth yw'r ffactorau cyfrannol sy'n llywio dewis myfyrwyr; a yw amrywiaeth modelau darparu ar hyn o bryd yn diwallu anghenion myfyrwyr; beth yw'r rhwystrau sy'n atal darparwyr addysg uwch (AU) rhag cynnig modelau darparu mwy amrywiol; a sut y mae trefniadau cyllido'n llywio ymddygiadau sefydliadol.

Mae'r astudiaeth yn ansoddol a meintiol. Dylai ein dadansoddiad meintiol gael ei ystyried yn ymgais cyntaf i ddatblygu darlun cynhwysfawr o amrywiaeth modelau darparu yng Nghymru ac rydym yn gwneud nifer o argymhellion ar gyfer gweithgarwch casglu a dadansoddi data pellach. Ategir ein dadansoddiad gan ddata ansoddol cyfoethog a gafwyd trwy'r ymgysylltu helaeth a wnaethom fel rhan o'r astudiaeth. Trwy ddefnyddio dulliau cymysg fe gawsom ddealltwriaeth ehangach, ddyfnach a chyfoethocach am amrywiaeth addysg uwch yng Nghymru.

Canfu ein hastudiaeth, er bod modelau darparu AU amrywiol yng Nghymru, bod un model darparu pennaf o hyd: y radd anrhydedd israddedig amser-llawn, tair blynedd. Mae mathau eraill o ddarpariaeth addysg uwch israddedig yng Nghymru ar gael ond mae llai o gyfleoedd yn cael eu cynnig. Nid yw'r sector yn homogenaidd ac mae maint yr amrywiaeth yn amrywio rhwng grwpiau o ddarparwyr.

Dim ond 1 ymhob 3 pherson ifanc yng Nghymru sy'n dewis ymgysylltu ag addysg uwch, a pho uchaf fo lefelau amddifadedd lluosog a pho isaf fo cyrhaeddiad addysgol y bobl o'u cwmpas, po leiaf tebygol yw person o ymgysylltu ag addysg uwch. Mae pobl sy'n byw yng Nghymru sydd: yn anabl, yn ofalwyr, yn dod o gefndiroedd Roma, Sipsiwn a Theithwyr, o gefndiroedd ethnig Bangladeshaidd a Gwyn a Du Caribïaidd, neu sy'n ddynion ifainc, yn draddodiadol wedi bod heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch.

Mae oddeutu 27% i 31% o'r bobl sy'n byw yng Nghymru sy'n dewis astudio ar lefel addysg uwch yn dewis astudio'r tu allan i Gymru, ac mae'r mwyafrif o'r rheiny'n astudio ar gyfer gradd gyntaf[1] neu radd meistr a addysgir. Ysgogydd pwysig wrth benderfynu a fydd pobl sy'n byw yng Nghymru'n astudio yng Nghymru ynteu'r tu allan i Gymru yw oedran; po ieuengaf fo'r person, po fwyaf tebygol ydynt o astudio'r tu allan i Gymru. Gan ganolbwyntio ar astudiaeth israddedig amser-llawn yn unig, ceir patrymau pendant rhwng lefelau amddifadedd, addysg rhieni, dosbarth economaidd-gymdeithasol a'r math o ysgol, sy'n awgrymu bod braint yn ffactor arall sy'n dylanwadu pa un a yw person sy'n byw yng Nghymru ac sy'n dewis astudio ar lefel addysg uwch yn astudio yng Nghymru ynteu'r tu allan i Gymru.

[1] Mae **gradd gyntaf** yn cynnwys yr holl raddau cyntaf ar lefel H/6 (gan gynnwys y rhai â chymhwystra i gofrestru i ymarfer gyda chorff rheoleiddio statudol iechyd neu ofal cymdeithasol neu filfeddygol), graddau cyntaf cyffredin (heb anrhydedd), graddau cyntaf gyda Statws Athro Cymwysedig (SAC)/cofrestriad gyda'r Cyngor Addysgu Cyffredinol (CAC), gradd baglor ôl-radd ar lefel H/6, graddau cyntaf integredig ac estynedig (gan gynnwys y rhai sy'n arwain at ennill cymhwystra i gofrestru i ymarfer gyda chorff rheoleiddio statudol iechyd neu ofal cymdeithasol neu filfeddygol), graddau cyntaf a enillir ar y cyd â diploma a graddau cyntaf â blwyddyn ymsang. (HESA )

Ceir nifer o batrymau i'r dewisiadau y mae myfyrwyr o Gymru'n eu gwneud pan ydynt yn dewis astudio ar lefel addysg uwch israddedig yng Nghymru a gaiff eu llywio gan eu nodweddion personol. Gan gyfeirio at y data, er nad yw myfyrwyr anabl yn nodweddiadol yn ffafrio dulliau neu lefelau astudio penodol ar lefel israddedig, mae cyfran uwch o fyfyrwyr sy'n dewis astudio o bell yn anabl. O'r myfyrwyr sy'n dewis astudio o bell mae cyfran uwch o fyfyrwyr â dau gyflwr neu fwy a chyfran is o fyfyrwyr ag anhawster dysgu penodol o'i gymharu â myfyrwyr sy'n dewis astudio wyneb-yn-wyneb mewn darparwr neu bartner. Mae oedran yn ffactor arwyddocaol sy'n ysgogi myfyrwyr i ddewis modelau darparu penodol. Mae myfyrwyr iau'n dewis graddau israddedig, tra bo myfyrwyr dros 31 yn dewis HNC a Thystysgrifau mewn AU. Mae myfyrwyr iau'n dewis astudio graddau israddedig yn llawn-amser, tra bo myfyrwyr dros 31 yn dewis astudio'n rhan-amser. Mae mwy o fyfyrwyr sy'n hŷn na 31 yn dewis astudio o bell nag o fyfyrwyr dan 20 oed. Mae mwy o fyfyrwyr benywaidd yn dewis modelau darparu rhan-amser, dysgu o bell a modiwlau unigol a chyrsiau byr o'i gymharu â myfyrwyr gwrywaidd. Mae cyfran uwch o fyfyrwyr gwyn yn dewis astudio ar gyfer rhaglen sylfaen, Diploma AU, HND a modiwlau unigol a chyrsiau byr. Mae cyfran uwch o fyfyrwyr gwyn yn dewis astudio'n rhan-amser. Mae cyfran fwy o fyfyrwyr Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn dewis astudio mewn darparwr.

Un o'r atebion allweddol yr oedd yr astudiaeth hon yn ceisio'u canfod oedd i ba raddau y mae'r modelau darparu addysg uwch presennol a gynigir yng Nghymru'n diwallu anghenion ei dysgwyr. Ein casgliad ni yw bod angen twf mewn modelau darparu heblaw'r un blaenaf i ddiwallu anghenion pobl sy'n byw yng Nghymru a chau'r bwlch cyfranogiad, a bod yr angen i ddatblygu mwy byth o fodelau darparu amgen wedi dod yn fwy dybryd byth wrth i'r argyfwng costau byw effeithio ar ragor o fyfyrwyr. Rydym yn dadlau dros arloesi mewn modelau darparu, ond mae ein trafodaeth ynglŷn â phrentisiaethau lefel-uwch a gradd-brentisiaethau hefyd yn ein harwain i rybuddio rhag canolbwyntio ar amrywiaeth modelau darparu heb ystyried deilliannau myfyrwyr. Rydym yn ceisio bwrw golwg ar ddeilliannau myfyrwyr ar gyfer pob un o'r modelau darparu. Mae'r wybodaeth yr ydym wedi edrych arni'n awgrymu nad yw modelau darparu gwahanol yn cynhyrchu patrymau cyson o wahaniaethau ym mhrofiadau myfyrwyr na'u tebygolrwydd o gael gwaith neu astudio ymhellach; ceir cymysgedd o brofiadau cadarnhaol a negyddol gan fyfyrwyr ac mae'r un peth yn wir am y gyfran o fyfyrwyr sydd mewn gwaith neu'n astudio ymhellach. Ymddengys, serch hynny, fod patrwm mewn cyfraddau parhad rhwng modelau darparu: mae gan gymwysterau HND neu ddiploma gyfraddau parhad is. Yr hyn sy'n fwy trawiadol yw bod grwpiau penodol o fyfyrwyr yn cael profiadau addysgol llai cadarnhaol, nid o reidrwydd oherwydd y model darparu ei hun, ond oherwydd eu profiad addysgol ehangach. Er y gall modelau darparu amrywiol fod o gymorth i ddiwallu anghenion rhai grwpiau o ddysgwyr, dylai gwelliannau yn neilliannau grwpiau penodol o ddysgwyr fod yn llawn cymaint o ffocws mewn polisi.

Fe wnaethom adnabod chwe rhwystr ariannol sy'n lleihau neu'n arafu amrywiaeth y modelau darparu a ddatblygir ac a gynigir gan ddarparwyr AU:

1. Fel ecosystem, mae'r system cyllid myfyrwyr a'r cyllid addysgu a ddyrennir i ddarparwyr AU yn ffafrio'r model darparu blaenaf.
2. Nid yw effeithiau hirdymor dyled myfyrwyr ar faterion ariannol a chyfleoedd bywyd myfyrwyr yn y dyfodol yn cael eu deall yn dda gan fyfyrwyr a rhieni.
3. Mae lefelau sylweddol o arian yn cael eu buddsoddi i gyllido benthyciadau i fyfyrwyr ar gyfer myfyrwyr o Gymru sy'n astudio'r tu allan i sector AU Cymru. Mae hyn yn lleihau swm y cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ei fuddsoddi mewn blaenoriaethau eraill, a allai gynnwys ehangu modelau darparu amgen yn narparwyr AU Cymru.
4. Mae'r gostyngiad parhaus yn lefelau'r cyllid cyhoeddus yn achosi pryder ynghylch gallu'r sector i gynnal ei fodelau busnes cyfredol. Mae wedi achosi i ddarparwyr AU dyfu incwm sy'n

gysylltiedig â modelau darparu sy'n dwyn elw uchel yn gymesur, sydd wedi arwain at fwy o gystadleuaeth am fyfyrwyr rhyngwladol a rhai myfyrwyr israddedig ac ôl-radd. Mae hefyd wedi ysgogi nifer o ddarparwyr AU i fynd ar ôl potiau bychain o gyllid cyhoeddus ychwanegol i ddatblygu modelau darparu newydd, sy'n cystadlu am adnoddau gyda'u modelau darparu presennol ac sydd weithiau'n dyblygu darpariaeth yn ddiangen ledled Cymru.

5. Mae cymysgedd darparwyr AU o fodelau busnes nid yn unig yn ei gwneud hi'n anodd i'r sector AU gyfrifo gwir gost ei fodelau darparu a mynegi'n glir beth yw maint y bwlch mewn cyllid, mae hefyd yn creu costau gorbenion ac yn gwneud rheoli costau'n anos.
6. Mae'r ffordd y mae rhai SAUau, darparwyr amgen a'u myfyrwyr yn cael mynediad at gyllid addysgu neu fenthyciadau i fyfyrwyr ar hyn o bryd yn arwain at gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r trefniadau cytundebol a rheoleiddiol sy'n caniatáu iddynt wneud hynny. Mae prosesau mewn perthynas ag achredu a dilysu'n ychwanegu costau at ddarparu.

Hefyd, canfuom saith rhwystr anariannol i ddatblygu modelau darparu arloesol neu ddwyn deilliannau addysgol da i bob grŵp o fyfyrwyr:

1. Mae trefniadau cyllido a fframweithiau sicrhau ansawdd AU ar hyn o bryd yn ei gwneud hi'n anos ac yn fwy costus i ddarparwyr arloesi a chydweithio.
2. Ceir bwlch rhwng dadansoddiadau a chynlluniau a ddatblygir trwy'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a chyflawni a gweithredu newidiadau ledled Cymru i ddarpariaeth addysg uwch. Mae newid yn aml yn ddarniog mewn mentrau lleol, yn gyfyngedig i bartneriaethau presennol gyda gorbenion costus yn gysylltiedig â threfniadau pwrpasol â therfyn amser a seilwaith ad-hoc. Mae mentrau cydweithio strategol wedi gweithio'n dda pan fo seilwaith a rennir wedi cael ei roi ar waith, ond rhaid wrth ymdrech ac adnoddau ar gyfer hyn.
3. Gallai datblygu modelau darparu amgen ryddhau costau sy'n ymwneud ag adeiladau, ynni a seilwaith.
4. Mae seilwaith digidol cyfredol darparwyr AU wedi dyddio; ar y gorau mae'n gweithio ar gyfer y model darparu blaenaf ac yn gwneud cefnogi modelau darparu heblaw am yr un blaenaf yn anodd ac yn gostus.
5. Mae diffiniadau data sy'n disgrifio modelau darparu'n rhy gul ac yn canolbwyntio'n ormodol ar y model blaenaf, ac yn aml nid yw data sy'n ymwneud â modelau heblaw am yr un blaenaf yn bodoli, neu mae o ansawdd gwael ac yn cael ei ddychwelyd mewn ffurflenni allanol lluosog.
6. Mae llawer o ddarparwyr yn gwella'u prosesau addysg craidd i wella deilliannau ar gyfer myfyrwyr ac mae cyfle i'r sector gydweithio a datblygu sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr hyn sy'n gweithio.
7. Mae rhai diwylliannau sefydliadol mewn addysg uwch yn ei chael hi'n anodd cynorthwyo eu staff i arloesi neu hybu'r arfer o gymryd risgiau mewn ffordd iach.

Mae CCAUC yn paratoi i bontio i mewn i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ac mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu strategaeth ar gyfer y sector addysg drydyddol sy'n mynegi'r hyn y mae'n ofynnol iddo'i wneud i gyflawni blaenoriaethau strategol CCAUC a sut y bydd yn cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ym meysydd iechyd, addysg, cymdeithas ddinesig a'r economi. Rydym yn gwneud tri argymhelliad ar ddeg yr ydym yn gobeithio y byddant yn trefnu agweddau pwysig ar y strategaeth honno. Rhai i'r CADY eu rhoi ar waith fyddai'r rhain, mewn cydweithrediad gyda sefydliadau perthnasol ledled Cymru:

## Cyllid a darparu adnoddau

**Argymhelliad 1:**
Creu strategaeth fuddsoddi sy'n cynnal sector AU ffyniannus yng Nghymru gan ysgogi sefydliadau i arloesi, buddsoddi, gweithredu â darbodaeth ariannol a pherfformio i safonau uchel. Datblygu a gweithredu strategaeth ariannol a fydd:

- yn lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â gweinyddu a rheoleiddio'r system trwy gael gwared ar achosion o ddyblygu gwasanaethau,
- cael gwared ar gystadleuaeth ddi-fudd a meithrin cystadleuaeth ystwyth ac effeithiol,
- gwneud defnydd mwy strategol o gyllid presennol trwy adolygu maint, graddfa ac effeithiolrwydd cyllidebau cyfredol,
- cynyddu faint o addysg a ddarperir yng Nghymru i fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru trwy barhau i godi safonau ac i wella ansawdd darpariaeth AU yng Nghymru a defnyddio ysgogwyr polisi megis ffioedd a chymorth, ac
- ystyried cyplu lefel ffioedd dysgu myfyrwyr â newidiadau mewn costau a chwyddiant. (Ni fyddai hyn ond yn dderbyniol pe bai'r system a gwerth y budd preifat i'r dysgwr yn cael eu deall yn well.)

**Gweithredu:** Llywodraeth Cymru a'r CADY (Yn arwain)

**Argymhelliad 2:**
Ailddylunio'r system cyllid myfyrwyr yng Nghymru fel ei bod yn rhyddhau'r galw nas diwellir am fathau mwy amrywiol o AU. Bydd y system newydd (fel isafswm):

- yn cefnogi ystod ehangach o lawer o fodelau darparu (gan gynnwys ar-lein),
- yn hysbys i'r holl fyfyrwyr posibl ac yn cael ei deall ganddynt,
- yn syml ac yn hawdd i'w defnyddio i bawb ond yn enwedig y rhai sy'n wynebu rhwystrau lluosog i addysg,
- yn sicrhau bod cyrsiau â dulliau mynychu amgen yn cael cyllid cydradd o'i gymharu â'r model amser-llawn, ac
- yn ei gwneud hi'n haws i ddysgwyr ail gyfle astudio mewn AU (trwy gynnwys cyllid ar gyfer cyrsiau Mynediad a chyrsiau hybu sgiliau Mathemateg a Saesneg).

Bydd y system newydd yn cael ei chyfleu'n glir i'r holl randdeiliaid ar ffurf y gall pawb ei deall.

**Gweithredu:** Llywodraeth Cymru (Yn arwain) a'r CADY

**Argymhelliad 3:**
Sicrhau bod y fframwaith rheoleiddiol yn hwyluso'r broses o gofrestru a chyllido ystod ehangach o ddarparwyr AU sy'n cynnig modelau sy'n diwallu anghenion dysgwyr mewn modd arloesol gan leihau i'r eithaf y costau iddynt wneud hynny.

**Gweithredu:** CADY (Yn arwain)

**Argymhelliad 4:**
Cynorthwyo darparwyr addysg drydyddol i fynegi'n llawn beth yw strwythurau cost eu modelau darparu, trwy gomisiynu astudiaeth gyfannol o gostau darparu addysg uwch sy'n cydnabod cenhadaeth driphlyg darparwyr AU – darparu addysgu, ymchwil/trosglwyddo gwybodaeth, a bod yn sefydliadau angori dinesig – a, lle y bo'n briodol, yn defnyddio data llwyth gwaith presennol darparwyr.

**Gweithredu:** CADY (Yn arwain)

## Strwythurau a systemau

**Argymhelliad 5:**
Symleiddio'r modd y caiff cyllid addysgu ei ddyrannu a'i weinyddu.

**Gweithredu:** Cyrff cyllido (Llywodraeth Cymru, CCAUC, CADY (Yn arwain))

**Argymhelliad 6:**
Sicrhau, trwy adolygu ac ailddylunio, bod y system ddyfarnu'n gallu nid yn unig cefnogi, ond hefyd hybu, y canlynol:

- amrywiaeth y ddarpariaeth
- darpariaeth effeithlon
- rhwyddineb creu mathau amrywiol o ddarpariaeth
- y gallu i greu darpariaeth newydd yn gyflym
- enw da yn rhyngwladol i ansawdd cymwysterau 'Cymreig'.

**Gweithredu:** Cymwysterau Cymru (Yn arwain) a darparwyr AU

**Argymhelliad 7:**
Datblygu a buddsoddi mewn strategaeth seilwaith digidol ar gyfer y sector addysg uwch, sy'n galluogi darpar ddysgwyr ac, i ddechrau, dysgwyr AU i weld a chael mynediad at bob model darparu i'r un graddau (e.e. creu system Dilyniant Dysgwyr Addysg Uwch – HELP – sy'n galluogi'r rhai sy'n gadael yr ysgol, dysgwyr AB a'r rhai sy'n ceisio darpariaeth sy'n gysylltiedig â chyflogwr, i weld yr holl gyfleoedd dysgu AU mewn un lle) ac yn rhoi'r cyfle i'r holl ddarparwyr wasanaethu eu cymuned amrywiol o ddysgwyr (h.y. trefol a gwledig) yn gyfartal. Efallai y gellid estyn hyn i gwmpasu'r holl ddarpariaeth addysg drydyddol yng Nghymru.

**Gweithredu:** CADY (Yn arwain)

**Argymhelliad 8:**
Datblygu strategaeth data ar gyfer y sector addysg drydyddol, a honno:

- yn mapio sut y gall costau'r system gwybodaeth reoli (gan gynnwys cofnodion myfyrwyr a ffurflenni allanol cysylltiedig) gael eu lleihau trwy saernïaeth data a thechnoleg cwmwl,
- yn symleiddio ac yn ehangu'r diffiniadau sy'n disgrifio modelau darparu, ac
- yn gwella argaeledd, cysondeb ac ansawdd data ar draws pob model darparu, gyda ffocws ar ddeilliannau myfyrwyr yn hytrach nag amrywiaeth fel y cyfryw.

**Gweithredu:** CADY (Yn arwain)

**Argymhelliad 9:**
Cynnwys darparwyr addysg drydyddol mewn strategaethau cynllunio cyfalaf a chynaliadwyedd amgylcheddol rhanbarthol, a chanolbwyntio ar anghenion y sector trydyddol am adeiladau ychwanegol yn ogystal â pha adeiladau ellir eu rhesymoli, eu hail-bwrpasu a'u gwella.

**Gweithredu:** Awdurdodau Lleol (Yn arwain)

## Cydweithio a seilwaith cydweithredol

**Argymhelliad 10:**
Creu cyfrwng Cymru gyfan a fydd yn galluogi darpariaeth ar gyfer cyflogwyr i gael ei datblygu a'i chyflwyno'n gydweithredol trwy ystod eang o fodelau addysg gan arbenigwyr yn y maes (naill ai o un SAU neu o lawer o SAUau yng Nghymru) a bod ar gael i gyflogwyr, ni waeth beth fo'r man cyflogaeth.

- gweithio gydag AaGIC i dreialu'r cyfrwng ar gyfer y sector iechyd,
- gwerthuso, adolygu a datblygu glasbrint ar gyfer cyfrwng i sectorau eraill, gydag anghenion sectorau'n llywio'r gwaith cynllunio a'r cyllid, a
- chyflwyno'r dull i sectorau economaidd strategol eraill.

Rydym yn amlinellu'r hyn a olygwn wrth gyfrwng yn atodiad 11 wrth yr adroddiad hwn.

**Gweithredu:** CADY (Yn arwain) ac AaGIC

**Argymhelliad 11:**
Sicrhau bod y CADY yn meddu ar yr offer angenrheidiol i dywys, datblygu a rheoleiddio'r sector:

- Buddsoddi yng nghapasiti cynllunio, dadansoddi a gwerthuso'r CADY
- Datblygu set gyffredin o ddangosfyrddau data cyhoeddedig a ddefnyddir i egluro disgwyliadau ynglŷn â pherfformiad, cefnogi'r broses o reoleiddio'r sector, hysbysu rhanddeiliaid a chefnogi'r broses o adolygu strategaethau.
- Datblygu swyddogaeth ymchwil ar gyfer y sector yn y CADY sy'n comisiynu ymchwil effeithiol i ganfod sut orau y gall y sector ddarparu. Bydd hyn yn:
  - goleuo polisi a gwaith i ddatblygu a gweithredu strategaethau
  - goleuo gwelliant gweithredol
  - cefnogi arloesi sy'n arwyddocaol yn strategol.

**Gweithredu:** Llywodraeth Cymru a'r CADY (Yn arwain)

**Argymhelliad 12:**
Gweithio gyda darparwyr AU i ddatblygu arlwy 'astudio yng Nghymru' fel bod myfyrwyr sy'n hanu o Gymru ac sydd wedi dewis astudio'r tu allan i Gymru yn gallu cael eu denu yn ôl i Gymru, i astudio modiwlau cyfrwng Cymraeg, gan felly wella'u sgiliau dwyieithrwydd.

- Archwilio, gyda darparwyr AU penodol yn Lloegr, y potensial i greu arlwy 'astudio yng Nghymru' sy'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg, am un flwyddyn yn debyg i'r arlwy blwyddyn dramor.
- Gweithio gyda darparwyr yn Lloegr fel bod myfyrwyr Cymraeg yn Lloegr yn gallu cynnwys modiwlau cyfrwng Cymraeg trwy ddarpariaeth ar-lein/dysgu o bell gyda darparwyr yng Nghymru o fewn eu rhaglenni gradd. Byddai cysylltedd cychwynnol â rhwng pump ac wyth darparwr yn Lloegr yn sicrhau bod canran sylweddol o fyfyrwyr yn Lloegr sy'n hanu o Gymru'n cael eu cynnwys.

**Gweithredu:** CADY (Yn arwain) a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

## Ymchwil bellach

**Argymhelliad 13:**
Mynd ati ymhellach i ddatblygu darlun mwy cynhwysfawr a manwl o amrywiaeth y modelau darparu a gynigir, a ddylai gynnwys:

- mynd ati ymhellach i ddatblygu’r deipoleg i gynnwys y pynciau a addysgir,
- dadansoddi’r ffactorau ychwanegol sy’n ysgogi myfyrwyr sy’n byw yng ngweddill y DU i astudio yng Nghymru
- dadansoddi’r ffactorau sy’n ysgogi myfyrwyr o Gymru i ddewis astudio’r tu allan i Gymru, gan gynnwys y modelau darparu y maent yn eu dewis,
- dadansoddi’r ffactorau sy’n ysgogi myfyrwyr o wahanol gefndiroedd ethnig lleiafrifol i ddewis modelau darparu a rhaglenni, ac
- ymchwilio i bwysigrwydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg i’r dewisiadau a wneir gan fyfyrwyr ynglŷn â ble a sut y maent yn astudio ar lefel addysg uwch.

**Gweithredu:** CADY (Yn arwain)